# Y CYNGOR

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 6 Rhagfyr, 2021.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Jayne Norman (Maer); Cynghorwyr Julie Aviet, Vincent Bailey, Rhiannon Birch, Jonathan Bird, Bronwen Brooks, Lis Burnett, George Carroll, Christine Cave, Janice Charles, Geoff Cox, Robert Crowley, Andrew R.T. Davies, Pamela Drake, Vincent Driscoll, Stewart Edwards, Ben Gray, Owen Griffiths, Stephen Griffiths, Sally Hanks, Nic Hodges, Hunter Jarvie, Gwyn John, Dr. Ian Johnson, Gordon Kemp, Peter King, Kevin Mahoney, Kathryn McCaffer, Anne Moore, Neil Moore, Michael Morgan, Rachel Nugent-Finn, Andrew Parker, Bob Penrose, Sandra Perkes, Andrew Robertson, Leighton Rowlands, Ruba Sivagnanam, John Thomas, Neil Thomas, Steffan Wiliam, Margaret Wilkinson, Edward Williams and Mark Wilson.

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd Millie Collins.

EITEM AGENDA 2. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 3. COFNODION –

PENDERFYNWYD –

(1) CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi, 2021 fel cofnod cywir.

(2) BOD cymeradwyo cofnodion y Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 28 Medi, 2021 fel cofnod cywir, ar yr amod ei fod yn nodi mai adroddiad Steve James ’nid adroddiad yr Arweinydd oedd yr adroddiad y cyfeiriodd y Cynghorydd Kemp ato ar dudalen 377.

(3) CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 11 Hydref, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 5. DIWEDDARIAD AR AILSTRWYTHURO'R UWCH DÎM ARWEINYDDIAETH (SLT) ARFAETHEDIG (A) –

PENDERFYNWYD –

(1) Y nodir canlyniad yr ymgynghoriad diweddar ymhlith staff y Cyngor ar gynigion ar gyfer newidiadau i strwythur Uwch Dîm Arweinyddiaeth Weithredol y Cyngor.

(2) Y dynodir Rheolwr Gyfarwyddwr y Cyngor yn Swyddog Canlyniadau'r Cyngor ochr yn ochr â rôl gysylltiedig Swyddog Cofrestru Etholiadol y Cyngor o 7 Rhagfyr, 2021, gyda'r dyletswyddau i barhau pan fydd teitl y swydd yn newid i'r Prif Weithredwr.

(3) Y caiff Cyfansoddiad y Cyngor ei ddiwygio i adlewyrchu ail-ddynodi'r rolau fel y nodir uchod.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Cydymffurfio â gofynion statudol Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl 1983, 1985 a 2000 (fel y'i diwygiwyd).

(3) Sicrhau bod y Cyfansoddiad yn adlewyrchu'r newid mewn dynodiad statudol.

DS. Gadawodd yr holl Uwch swyddogion a oedd yn ymwneud â'r broses ymgynghori y cyfarfod tra bod yr eitem hon yn cael ei hystyried heblaw am y Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu a'r Swyddog TGCh sy'n cefnogi'r cyfarfod.

Fodd bynnag, roedd cynrychiolydd o Gyfreithwyr Geldards yn bresennol yn y cyfarfod i gynghori yn ôl y gofyn.

EITEM AGENDA 6. DIOGELWCH A CHEFNOGAETH CYNGHORWYR (CYF) –

PENDERFYNWYD –

(1) Y cytunir, os bydd Cynghorydd mewn perygl personol neu fygythiad niwed sylweddol wrth wneud ei rôl, y dylid ystyried ariannu mesurau diogelwch priodol, yn enwedig pan fydd mesurau o’r fath wedi’u cynghori gan yr Heddlu neu’r gwasanaethau diogelwch.

(2) Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a'r Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 i ystyried a phenderfynu ar unrhyw gais fel y gyfeiriwyd ato ym mhenderfyniad (1) uchod am gyllid o'r fath.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1a2) Cefnogi Cynghorwyr i gyflawni eu rolau etholedig amrywiol.

EITEM AGENDA 7. AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH (CYF) –

PENDERFYNWYD – Y caiff y Cynllun Gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth ei gymeradwyo a mabwysiadu’r Cynllun Gweithredu.

Rhesymau dros benderfyniadau

Mabwysiadu'r Cynllun Gweithredu arfaethedig yn ffurfiol a chefnogi'r gwaith sy'n gysylltiedig ag Agenda Amrywiaeth mewn Democratiaeth Llywodraeth Cymru.

EITEM AGENDA 8. DEFNYDD O BWERAU BRYS Y RHEOLWR GYFARWYDDWR (RG) –

PENDERFYNWYD – BOD y defnydd o Bwerau Brys gan y Rheolwr Gyfarwyddwr yn cael ei nodi.

Rhesymau dros benderfyniadau

O ystyried Cyfansoddiad y Cyngor.

EITEM AGENDA 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGORAU CRAFFU MAI 2019 - EBRILL 2021 (RG) –

PENDERFYNWYD – BOD Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu ar gyfer y cyfnod o fis Mai 2019 i fis Ebrill 2021 yn cael ei dderbyn..

Rhesymau dros benderfyniadau

Derbyn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu fel sy'n ofynnol o dan Gyfansoddiad y Cyngor.

EITEM AGENDA 10(A) ADOLYGIAD O’R DATGANIAD O’R EGWYDDORION GAMBLO DEDDF 2005 2022-2025 (CYF) –

PENDERFYNWYD – BOD Datganiad Egwyddorion Bro Morgannwg ar gyfer ei swyddogaethau gamblo ar gyfer y cyfnod 2022-2025 yn cael ei gymeradwyo a'i fabwysiadu.

Rhesymau dros benderfyniadau

Sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd statudol fel awdurdod trwyddedu.

EITEM AGENDA 10(B) ADRODDIAD ADOLYGIAD ANNIBYNNOL BIOMAS BARRI (CYF) –

Yn dilyn y ddadl ac o ystyried y ffaith i'r Cynghorydd Dr. Johnson dynnu ei ddiwygiad i'r Cynnig yn ôl, cynhaliwyd pleidlais wedi'i chofnodi wedyn ar gynnig yr Arweinydd -

BOD Adroddiad Adolygiad Annibynnol Biomas Y Barri yn cael ei gymeradwyo.

| Aelodau | Canys | Yn Erbyn | Ymatal |
|---|---|---|---|
| Julie Aviet | √ | | |
| Rhiannon Birch | √ | | |
| Vincent Bailey | | √ | |
| Jonathan Bird | √ | | |
| Bronwen Brooks | √ | | |
| Lis Burnett | √ | | |
| Christine Cave | | √ | |
| George Carroll | | √ | |
| Janice Charles | | √ | |
| Geoff Cox | √ | | |
| Robert Crowley | | √ | |
| Andrew R T Davies | | √ | |
| Pamela Drake | √ | | |
| Vince Driscoll | | √ | |
| Stewart Edwards | | √ | |
| Ben Gray | √ | | |
| Owen Griffiths | √ | | |
| Stephen Griffiths | | √ | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sally Hanks | √ | | |
| Nic Hodges | | √ | |
| Hunter Jarvie | √ | | |
| Gwyn John | √ | | |
| Ian Johnson | | √ | |
| Gordon Kemp | | √ | |
| Peter King | √ | | |
| Kevin Mahoney | | √ | |
| Kathryn McCaffer | √ | | |
| Anne Moore | √ | | |
| Neil Moore | √ | | |
| Michael Morgan | √ | | |
| Jayne Norman | √ | | |
| Rachel Nugent-Finn | | √ | |
| Andrew Parker | √ | | |
| Bob Penrose | | √ | |
| Sandra Perkes | √ | | |
| Andrew Robertson | | √ | |
| Leighton Rowlands | | √ | |
| Ruba Sivagnanam | √ | | |
| John Thomas | √ | | |
| Neil Thomas | √ | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Steffan Wiliam | | √ | |
| Margaret Wilkinson | √ | | |
| Edward Williams | √ | | |
| Mark Wilson | √ | | |
| **CYFANSWM** | 26 | 18 | |

Enillwyd y bleidlais.

PENDERFYNWYD – BOD Adroddiad Adolygiad Annibynnol Biomas Y Barri yn cael ei gymeradwyo.

Rhesymau dros benderfyniadau

Rhoi ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

DS. Roedd y Bargyfreithiwr Annabel Graham Paul hefyd yn bresennol i gynghori'r Cyngor yn ôl yr angen.

EITEM AGENDA 10(C) GORCHYMYN BWRDEISTREF SIROL BRO MORGANNWG (TREFNIADAU ETHOLIADOL) 2021 (CYF) –

PENDERFYNWYD – Y dylid cymeradwyo cynigion y Cabinet, fel y nodir yng Nghofnod Rhif C729 22 Tachwedd, 2021

Rhesymau dros benderfyniadau

Rhoi ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 10(D) LLEOEDD PLEIDLEISIO A GORSAFOEDD PLEIDLEISIO: ADOLYGIAD BACH (CYF) –

PENDERFYNWYD – Y dylid cymeradwyo cynigion y Cabinet, fel y nodir yng Nghofnod Rhif C730 22 Tachwedd, 2021

Rhesymau dros benderfyniadau

Ystyried swyddogaethau statudol y Cyngor o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

EITEM AGENDA 10(E) ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN RHEOLI'R TRYSORLYS 2021/22 (CYF) –

PENDERFYNWYD – Y dylid cymeradwyo cynigion y Cabinet, fel y nodir yng Nghofnod Rhif C735 22 Tachwedd, 2021

Rhesymau dros benderfyniadau

Cydymffurfio â Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

EITEM AGENDA 10(F) CYNLLUN GOSTYNGIAD TRETH GYNGOR (CYF) –

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid cymeradwyo cynigion y Cabinet, fel y nodir yng Nghofnod Rhif C739m 22 Tachwedd, 2021

(2) Y dylid nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C739(4) (22 Tachwedd, 2021)) fel y'i nodir yn Adran 14.14.2 (ii) o Gyfansoddiad y Cyngor.

Rheswm dros y penderfyniad

(1) Galluogi Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i gael ei gymeradwyo erbyn 31 Ionawr, 2022 ac ar waith i'w weithredu o 1 Ebrill, 2022.

(2) Mae'r adroddiadau am ddefnyddio'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

EITEM AGENDA 11(A) YMATEB DRAFFT I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR Y CYD-BWYLLGORAU CORFFORAETHOL: CANLLAWIAU STATUDOL DRAFFT (CYF) –

PENDERFYNWYD - Y dylid nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C672(2) (27 Medi, 2021)) fel y'i nodir yn Adran 14.14.2 (ii) o Gyfansoddiad y Cyngor.

Rheswm dros y penderfyniad

Mae'r adroddiadau am ddefnyddio'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

EITEM AGENDA 11(B) YMATEB DRAFFT I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR LUNIO DYFODOL CYMRU: DEFNYDDIO DANGOSYDDION A CHERRIG MILLTIR CENEDLAETHOL I FESUR CYNNYDD EIN CENEDL (CYF) –

PENDERFYNWYD - Y dylid nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C709(2) (25 Hydref, 2021)) fel y'i nodir yn Adran 14.14.2 (ii) o Gyfansoddiad y Cyngor.

Rheswm dros y penderfyniad

Mae'r adroddiadau am ddefnyddio'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

EITEM AGENDA 11(C) TRAWSNEWID TREFI: CEFNOGAETH I WELLA CANOL TREFI (CYF) –

PENDERFYNWYD - Y dylid nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C710(10) (25 Hydref, 2021)) fel y'i nodir yn Adran 14.14.2 (ii) o Gyfansoddiad y Cyngor.

Rheswm dros y penderfyniad

Mae'r adroddiadau am ddefnyddio'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.